**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio i'r Cyfarfod Llawn 2005-06**

1. Hwn yw'r trydydd adroddiad blynyddol ar waith Pwyllgor Archwilio'r Ail Gynulliad, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 12.2. Mae'n crynhoi gweithgareddau'r Pwyllgor rhwng Mehefin 2005 a Mai 2006.

2. Diben y Pwyllgor Archwilio yw sicrhau fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn glynu wrth y safonau uchaf posibl wrth reoli eu materion ariannol. Mae'n darparu sicrwydd i bobl Cymru fod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth; mae'n arf ataliol yn erbyn gwastraff, ac mae'n rhoi cyfarwyddyd i'r sector gyhoeddus yng Nghymru i wella ei waith.

3. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu heb fod ar sail plaid wleidyddol i roi barn ddiduedd ar weithredu polisi, ac i ystyried gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae manylion am aelodaeth y Pwyllgor a manylion pellach am ei rôl wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1.

## Crynodeb o waith y Pwyllgor

### *Adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a gwaith craffu cysylltiedig*

4. Yn ystod y flwyddyn dan sylw, mae'r Pwyllgor wedi archwilio pynciau trwy holl sbectrwm y sector gyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhain wedi amrywio o'r pwnc amserol diogelu staff y GIG rhag trais ac ymddygiad ymosodol i ariannu Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Mae wedi cynnal 10 cyfarfod, gan gynnwys 9 sesiwn tystiolaeth, ble cafodd cyfanswm o 30 o dystion eu cwestiynu. Yn dilyn ei archwiliadau, mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi wyth adroddiad[1], sydd, gyda'i gilydd, wedi cynnwys 43 o argymhellion ar gyfer gwella gwario cyhoeddus a chyflawni gwasanaethau.

5. Hefyd mewn perthynas â'r gwaith hwn, mae'r Pwyllgor wedi ystyried wyth ymateb ar wahân oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ei adroddiadau. Yr oedd yr ymatebion hyn yn cynnwys 67 argymhelliad. Yn achos adroddiad y Pwyllgor, 'Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Rheoleiddio Rheoli Gwastraff', a gyhoeddwyd yn Chwefror 2005, yr oeddem yn anfodlon gydag ymateb Llywodraeth y Cynulliad, gan nad oedd yn rhoi sylw clir i'r materion a godwyd gan ein hargymhellion. Gofynasom am ymateb pellach ac fe wnaethom ysgrifennu at Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, a oedd wedi gwneud gwaith o'r blaen yn y maes hwn.

---

[1] 'Rheoli Ynni a Dwr yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru'; 'Rheoli Absenoldebau Salwch gan Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru'; 'Cwymp Antur Dwyryd Llŷn Cyf'; 'Cyllid y GIG yng Nghymru 2005'; 'Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2005'; 'Contract ar gyfer Darparu Gwasanaeth Meddygon Teulu tu allan i oriau arferol yng Nghaerdydd'; 'Diogelu Staff y GIG rhag Trais ac Ymddygiad Ymosodol'; 'Arian ar gyfer Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru'.

### *Cael effaith*

6. Amcan y Pwyllgor Archwilio yw cael effaith gadarnhaol a buddiol ar gyflawni gwasanaethau cyhoeddus. Yr oedd y memorandwm gan yr Archwilydd Cyffredinol, *Cymryd stoc o waith archwilio gwerth am arian 2005*, a ystyriwyd gennym yn Hydref 2005, yn cadarnhau ein bod yn parhau i gyflawni'r nod hon. Fe amcangyfrifodd yr Archwilydd Cyffredinol, fod ein gwaith, ers datganoli, wedi cyfrannu at arbedion gwirioneddol o dros £115 miliwn, ac 'roedd wedi adnabod posibilrwydd o £35 miliwn o arbedion pellach. Yr oedd y memorandwm yn tanlinellu rhai esiamplau o'n gwaith cynharach oedd yn ddiweddar wedi arwain at greu arbedion, oherwydd gall gwahaniaeth amser mawr ddigwydd rhwng gwneud argymhellion, eu gweithredu gan gyrff a archwiliwyd, a gwireddu buddion dilynol. Er enghraifft, arweiniodd dau adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2002 ar reoli ystâd y GIG yng Nghymru at oddeutu gwerth £25 miliwn o dderbyniadau gwaredu a chyfrannu at ostyngiad o oddeutu £40 miliwn i'r gost cynnal a chadw flynyddol.

7. Yr ydym yn falch fod ein hadroddiad ar *Amseroedd aros y GIG yng Nghymru*, a gyhoeddwyd ym Mai 2005, wedi'i ddewis fel enghraifft yn adroddiad y Ganolfan Craffu Cyhoeddus ar *Graffu Llwyddiannus* a gyhoeddwyd yn Ionawr 2006. Daeth yr adroddiad gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus i'r casgliad fod y Pwyllgor Archwilio "wedi chwarae rôl allweddol i sicrhau gweddnewidiad yn agwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru at, a'u canolbwynt ar, wella amseroedd aros i gleifion yng Nghymru". Yr oedd eu hadroddiad yn tynnu sylw at dri "phwynt dysgu"

   - Manteision adeiladu ar adroddiad gan sefydliad proffesiynol, megis Swyddfa Archwilio Cymru i gyrff lleyg megis y Pwyllgor;
   - Defnyddioldeb cydweithredu rhwng pwyllgorau â chanddynt arbenigedd gwahanol (fe wnaeth Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad waith craffu pellach ar y pwnc hwn yn ddiweddarach yn 2005); a
   - y posibilrwydd i gyrff craffu effeithio ar gyflawni gwasanaethau cyhoeddus trwy ddarparu cyngor adeiladol. .

### *Themâu pwysig ein Gwaith Craffu*

8. Cafodd effaith prif waith craffu'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ei amlygu mewn pedair thema bwysig sydd wedi bod yn amlwg trwy lawer o'n gwaith:

   - arferion cyflogaeth cadarn;
   - rheoli risgiau;
   - Caffael yn effeithiol; a
   - chydweithio gydag eraill.

Dangosir y rhain yn y paragraffau canlynol.

### *Arferion cyflogaeth cadarn*

9. Rhoddodd dau o'n hadroddiadau yn y flwyddyn ddiwethaf sylw i iechyd a lles staff sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus a'r materion sy'n rhaid i sefydliadau roi sylw iddynt i ddod yn gyflogwyr da. Dangosodd ein hadroddiad *Diogelu staff y GIG rhag trais ac ymddygiad ymosodol* fod cyfanswm cost trais yn y gwaith i'r GIG oddeutu £6.3 miliwn; gyda'n hadroddiad *Rheoli absenoldebau salwch gan sefydliadau addysg bellach yng Nghymru* yn canfod fod absenoldeb salwch mewn sefydliadau addysg bellach yn costio £8 miliwn mewn amser staff a gollir a £1.5 miliwn am staff yn eu lle. Yr oedd y ddau adroddiad hyn yn tynnu sylw at broblemau tebyg i sefydliadau gyda diffinio a mesur graddfa'r broblem, hyfforddi staff, ac effaith straen yn y gweithle.

10. Er mwyn darparu atebion i broblem, yn gyntaf rhaid i sefydliad ddeall graddfa'r broblem. Ond yn y ddau achos a gyfeirir atynt yn y paragraff blaenorol, yr oedd ansawdd gwael y data yn amharu ar allu sefydliadau i ddelio gyda'r problemau 'roeddent yn eu hwynebu. Fe wnaethom ganfod fod sefydliadau yn defnyddio diffiniadau gwahanol wrth ddadansoddi absenoldeb salwch a digwyddiadau o drais, gan beri fod cymharu â meincnodi yn anodd. Yr oedd data o'r blynyddoedd blaenorol yn brin ac weithiau 'roedd yn annigonol, a 'roedd diffyg nodi gan staff hefyd yn broblem. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithredu i safoni'r diffiniad o ddigwyddiad o drais a nodir ac rydym yn argymell fod pob sefydliad addysg bellach yn cymryd camau i fesur absenoldeb salwch, gan ddefnyddio'r un diffiniad i hwyluso meincnodi.

11. Mae cyflogwr da yn sicrhau fod yr hyfforddiant cywir ar gael ar yr amser cywir fel bod gan unigolion yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i wneud eu gwaith. Gwelsom nad oedd rhai Ymddiriedolaethau GIG yn rhyddhau eu staff ar gyfer hyfforddiant gorfodol ar sut i helpu i amddiffyn eu hunain rhag trais ac ymddygiad ymosodol yn y gweithle. Yr oedd staff Llywodraeth y Cynulliad yn helpu ymddiriedolaethau i flaenoriaethu pa rai o'u staff oedd fwyaf angen hyfforddiant. Yn y sector addysg bellach, mewn sawl achos nid oedd rheolwyr llinell yn gyfrifol am reoli absenoldeb salwch, er mai hwy, gyda chefnogaeth uwch reolwyr ac adnoddau dynol, yw'r bobl gorau i gefnogi staff. Yr ydym yn argymell fod rheolwyr llinell yn cymryd cyfrifoldeb am reoli absenoldeb salwch a'u bod yn cael yr hyfforddiant arbenigol angenrheidiol i'w galluogi i wneud hynny'n hyderus, yn gyson ac mewn modd sensitif.

12. Mae straen yn dod yn gyfrannwr mwy a mwy amlwg tuag at absenoldeb o'r gwaith ac mae gan gyflogwyr ddyletswydd gyfreithiol i warchod eu staff. Mae mater straen yn y gwaith yn un cymhleth gan ei bod yn anodd penderfynu i ba raddau mae'r straen yn cael ei achosi gan waith neu gan ffactorau eraill, megis problemau domestig. Hefyd mae gwahaniaeth rhwng pwysau a straen a phryd mae'n dod yn broblem i'r unigolyn. Yn y

sector addysg bellach, clywsom fod sefydliadau yn cael achosion o absenoldeb salwch oherwydd straen, yr oedd cyfran uchel ohono'n gysylltiedig â gwaith. Yr oedd hyn yn rhywbeth y gallai'r Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (a Llywodraeth y Cynulliad erbyn hyn), mewn cydweithrediad â'r sefydliad sy'n cynrychioli'r colegau, ***fforwm***, helpu sefydliadau i ymdrin ag ef, trwy ddosbarthu enghreifftiau o arferion gorau ar sut i gasglu'r data angenrheidiol ar absenoldeb oherwydd straen a sut i ymdopi ag ef.

13. Mae trais ac ymddygiad ymosodol yn y gwaith, yn arbennig mewn amgylchiadau iechyd meddwl, yn achos straen amlwg ond yr ydym yn bryderus nad yw ymddiriedolaethau GIG fel mater o drefn yn cadw gwybodaeth ar raddfa'r absenoldeb salwch oherwydd trais ac ymddygiad ymosodol. Yr ydym yn argymell fod Llywodraeth y Cynulliad ac ymddiriedolaethau GIG yn datblygu systemau cofnodi absenoldeb salwch sy'n cofnodi trais cysylltiedig â'r gwaith fel rheswm dros absenoldeb.

*Rheoli Risgiau*

14. Yr oedd tri o'n hadroddiadau eleni yn benodol yn sôn am asesu a rheoli risgiau. Fel mae'r Pwyllgor hwn wedi'i nodi o'r blaen, does dim byd o'i le gyda'r sector gyhoeddus yn cymryd risgiau, ond rhaid i'r risgiau hynny gael eu hadnabod, eu hasesu a'u rheoli.

15. Er enghraifft yn ein hadroddiad, *Ariannu Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru*, fe wnaethom adnabod y gallai'r cyllidwyr cyhoeddus yng Nghymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru) fod wedi gwneud mwy i roi sylw i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ariannu'r Ardd. Yr oedd hwn yn brosiect llawn risg cynhenid, a fwriadwyd i fod yn un o'r ychydig erddi botaneg yn y byd a fyddai'n ariannu'i hunan heb fod angen unrhyw gymhorthdal cyhoeddus. I gyflawni hyn yr oedd yn rhaid i'r Ardd ddibynnu ar incwm gan ymwelwyr i dalu ei chostau gweithredu ac ar gyfer ariannu llawer o'i rhaglenni gwyddonol.

16. O gofio'r ansicrwydd cynhenid a gysylltir gyda rhagweld niferoedd ymwelwyr yr oeddem yn bryderus na wnaeth y cyllidwyr Cymreig dalu digon o sylw i'r peryglon fyddai'n deillio pe byddai'r Ardd heb fod yn cyflawni ei rhagolygon uchelgeisiol. Yr oeddem hefyd yn bryderus na wnaeth y cyllidwyr Cymreig asesu'n effeithiol y risgiau newydd oedd yn deillio o newidiadau sylweddol i'r rhagolygon hynny pan fo cynlluniau busnes diwygiedig yn cael eu darparu i gefnogi ceisiadau pellach am arian. Yr ydym yn argymell, y dylai cyrff cyhoeddus graffu'n fwy gofalus ar ragolygon cynlluniau busnes yn y dyfodol, yn arbennig gan ddefnyddio dadansoddi sensitif, ac y dylent gydweithio i adnabod, asesu a rheoli risgiau.

17. Yr oedd pwysigrwydd cydweithio i leihau risg hefyd yn amlwg yn ein hymchwiliad i gwymp yr Asiantaeth Fenter Lleol, Antur Dwyryd-Llŷn Cyf, ble nad oedd llesgedd y cwmni wedi'i gyfleu'n eang wrth yr asiantaethau

sector gyhoeddus oedd yn ariannu prosiectau yr oedd yn eu cynnal. Yn yr achos hwn, yr oedd cyllidwyr sector gyhoeddus Antur Dwyryd-Llŷn yn dibynnu'n gyfan gwbl ar y cwmni i reoli'r risgiau i arian cyhoeddus yr oeddent yn ei dalu iddo, ond ni wnaethant astudio galluoedd y Cwmni i ddelio gyda'r risgiau hyn. Ein casgliad oedd bod gallu'r sector gyhoeddus i gymryd golwg gyflawn ar raddfa bod yn agored i risg gan y sector gyhoeddus yn dibynnu'n gyffredinol ar y partïon perthnasol yn rhannu gwybodaeth mewn dull amserol - nad oedd yn wir yn yr achos hwn. Fe wnaethom dri argymhelliad yn hyn o beth.

18. Cyd-destun ein hadroddiad *Contract ar gyfer Gwasanaethau Meddygon Teulu Tu Allan i Oriau yng Nghaerdydd* oedd rhoi contract gwasanaethau cleifion i gwmni newydd, yn benodol y peryglon a gysylltir gyda gallu a hyfywdra ariannol cyflenwyr posibl i gyflawni'r gwasanaethau a gontractiwyd. Daethom i'r casgliad fod diffygion difrifol yn yr archwiliadau a wnaethpwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd i asesu gallu ariannol a chlinigol y cwmni cyn rhoi'r contract. Gwelsom, er bod Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd yn cydnabod fod ei benderfyniad i roi'r contract i gwmni newydd yn golygu nifer o beryglon, nid oedd wedi sefydlu strategaeth rheoli risg ysgrifenedig na chynllun argyfwng wrth gefn. Yng ngoleuni'r gwersi ehangach sydd i'w dysgu o'r achos hwn, yr ydym yn argymell y dylai cyrff cyhoeddus wirio fod canolwyr ar gael i roi sylwadau awdurdodol ar allu cyflenwr i ddarparu'r gwasanaeth y mae'n tendro amdano ac yn cofnodi geirda'r canolwyr hynny. Yr ydym yn argymell hefyd, wrth roi contractau am wasanaethau cleifion i gyflenwyr newydd, y dylai Byrddau Iechyd Lleol ddatblygu a chofnodi cynlluniau rheoli risg a chynlluniau argyfwng sy'n gymesur â'r peryglon dan sylw.

***Caffael yn effeithiol***

19. Mae pwysigrwydd caffael da wedi parhau i fod yn ganolbwynt pwysig i'n gwaith wrth i'r sector gyhoeddus yng Nghymru ymdrechu i gyflawni arbedion cysylltiedig â chaffael o £120 miliwn a dargedwyd ym mhapur polisi'r llywodraeth *Creu'r Cysylltiadau.*

20. Yn ein hadroddiad ar *Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2005*, fe nodwyd gennym fod nifer yr argymhellion archwilio ariannol cysylltiedig â chaffael wedi gostwng i'r hanner o'i gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol. Mae hwn yn ddatblygiad a groesewir ac mae'n awgrymu fod y gwiriadau ffitrwydd caffael a wnaethpwyd gan Fenter Gaffael Cymru (a elwir bellach yn Gwerth Cymru) yn dechrau cael effaith ar wella arferion caffael. Yr oeddem hefyd yn falch iawn o glywed fod y Fenter wedi nodi arbedion o £6 miliwn trwy'r sector gyhoeddus gyfan yng Nghymru yn 2004, gydag arbedion pellach o £25 miliwn wedi'u hadnabod fel bod yn bosibl eu cyflawni yn 2005.

21. Fodd bynnag, mae gwaith yn dal angen ei wneud i sicrhau fod gan gyrff cyhoeddus allu caffael ac arbenigedd sy'n ddigonol ar gyfer, ac yn gymesur â swm a chymhlethdod eu gofynion prynu. Yr ydym yn argymell fod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi cyhoeddusrwydd i enghreifftiau o arferion gorau sy'n amlwg trwy waith Menter Gaffael Cymru

(Gwerth Cymru bellach) a bod Llywodraeth y Cynulliad a'r cyrff mae'n eu noddi yn adolygu sut maent yn darparu hyfforddiant caffael er mwyn rhoi i staff cysylltiedig â chaffael y lefel sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaeth. Byddai gweithredu'r argymhelliad hwn yn helpu i osgoi methiannau i gydymffurfio gyda rheolau caffael, ac i reoli'n fwy effeithiol y peryglon cysylltiedig â chaffael a rheoli contractau. Fel y dangoswyd eisoes, gwelodd ein hadroddiad *Y Contract ar gyfer Darparu Gwasanaethau Meddygon Teulu Tu Allan i Oriau Arferol yng Nghaerdydd* nifer o ddiffygion o ran rheoli risg yn yr achos arbennig hwnnw sy'n darparu gwersi pwysig i bob corff cyhoeddus.

22. Fe wnaethom hefyd ystyried cynnydd a wnaethpwyd mewn ymateb i argymhellion ein hadroddiad *Caffael Meddyginiaethau Gofal Sylfaenol*. Mae datblygiadau ar lefel y DU i reoli costau meddyginiaethau gofal sylfaenol o fewn trefniadau caffael presennol yn golygu fod y posibilrwydd i gyflawni arbedion o gaffael canolog wedi'i erydu i bob pwrpas. Mae cyflwyno contract fferyllfa gymunedol newydd hefyd yn golygu fod ceisio contractio canolog yn llai priodol. Er hynny, mae'n braf nodi, o ganlyniad i gyd-drafodaethau rhwng adrannau iechyd y DU a'r diwydiant fferyllol, fod arbedion mynegol o oddeutu £20 miliwn y flwyddyn wedi'u cyflawni trwy newid prisiau ar gyfer y deg meddyginiaeth gaiff eu rhagnodi'n fwyaf aml o dan drefniadau caffael presennol. Cawsom ein calonogi hefyd gan y cynnydd da sy'n digwydd mewn ymateb i'n pedwar argymhelliad i wella ymddygiad rhagnodi ac i reoli meddyginiaethau.

23. Yn olaf, yn dilyn o'n hadroddiad *Caffael yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru,* a'n hadroddiad *Rheoli Ynni a Dŵr yn y Sector Addysg Uwch* pwysleisiwyd pwysigrwydd datblygu polisïau caffael sy'n adlewyrchu egwyddorion datblygiadau adnewyddadwy. Yn arbennig, yr oedd yr adroddiad yn argymell fod sefydliadau yn ystyried cost 'oes gyfan' wrth ystyried meini prawf effeithlonrwydd o ran defnydd o ynni a dŵr wrth gaffael cyfarpar newydd, ac wrth gynllunio adeiladau newydd.

### *Cydweithio gydag eraill*

24. Yng nghyd-destun rheoli risg, yr ydym eisoes wedi cyfeirio at yr angen i gyrff y sector gyhoeddus weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol. Yn fwy cyffredin, mae cyd-weithio o fewn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn egwyddor craidd agenda *Creu'r Cysylltiadau*. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yr ydym wedi adolygu nifer o wahanol fathau o bartneriaethau neu gydweithio rhwng gwahanol sefydliadau neu sectorau.

25. Yng nghyd-destun *Rheoli ynni a dŵr yn y sector addysg uwch*, gall gweithio ar y cyd alluogi sefydliadau llai nad oes ganddynt yr adnoddau yn unigol i gefnogi swyddog proffesiynol rheoli ynni penodol i rannu gwybodaeth ac adnoddau; enghraifft o hyn yw'r trafodaethau rhwng Prifysgol Caerdydd a Choleg Cerdd a Drama Cymru ar y posibilrwydd o fwy o gyd-weithio rhwng eu hadrannau gweinyddol gan gynnwys rheolaeth ynni a dŵr. Gwelsom hefyd esiamplau o sefydliadau addysg

uwch yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus lleol i ddatblygu atebion i'w hanghenion ynni, megis gweithio ar y cyd rhwng Sefydliad Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

26. Rhoddir enghraifft arall yn ein hadroddiad ar *Ddiogelu staff y GIG rhag trais ac ymddygiad ymosodol*. Gall heddluoedd lleol fod â rôl allweddol i weithio gydag ymddiriedolaethau'r GIG i warchod staff, ond nododd pedair ymddiriedolaeth eu bod yn credu fod ymateb yr heddlu i ddigwyddiadau o drais yn anfoddhaol, ac nid oedd bob ymddiriedolaeth wedi sefydlu dulliau ffurfiol ar gyfer cysylltu gyda'r heddlu. Cafwyd enghraifft dda o fanteision posibl cyd-weithio effeithiol gan Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych ble'r oedd heddwas lleol yn treulio 50 y cant o'i amser yn yr ysbyty. O ganlyniad, mae staff adran ddamweiniau ac achosion brys yr Ymddiriedolaeth wedi datblygu perthynas gadarnhaol ac adeiladol gyda'r heddlu.

## Gwaith arall y Pwyllgor

27. Yn ychwanegol at ei brif waith craffu, mae gofyn i'r Pwyllgor ystyried amcangyfrif blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol o incwm a gwariant, a'i gynigion ar gyfer gwneud ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn y sector llywodraeth ganolog yng Nghymru – ei raglen waith gwerth am arian.

### *Amcangyfrif blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol o incwm a gwariant a'r rhaglen gwerth am arian*

28. Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau o dan Reol Sefydlog 12.2(i), yn ei gyfarfod yn Hydref 2005 fe ystyriodd y Pwyllgor amcangyfrif incwm a gwariant yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2006. Yr oedd yr amcangyfrif yn cynrychioli gostyngiad o 1 y cant ar y gyllideb benodedig am 2005-06. Credai'r Archwilydd Cyffredinol efallai bod ganddo ystod ar gyfer arbedion effeithlonrwydd pellach dros y blynyddoedd nesaf.

29. Yn yr un cyfarfod, rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor wneud sylw ar raglen ddrafft astudiaethau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2006-07. Cyflwynwyd rhaglen derfynol astudiaethau gwerth am arian ar gyfer 2006-07 i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod yn Chwefror 2006.

### *Gwella gonestrwydd a hygyrchedd cyhoeddus*

30. Ar 1 Rhagfyr 2005, cyfarfu'r Pwyllgor yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn cysylltiad ag adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Ariannu Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru'. Y bwriad yw y bydd y Pwyllgor yn parhau i godi ymwybyddiaeth o ac yn gwella mynediad i'w waith trwy gyfarfod y tu allan i Gaerdydd ble bo'n ymarferol. Yn benodol, bydd y Pwyllgor yn ceisio cynnal cyfarfodydd allanol ble mae materion o ddiddordeb rhanbarthol neu leol penodol yn cael eu trafod.

**ATODIAD 1**

## AELODAETH, RÔLAU A CHYFRIFOLDEBAU

### Aelodaeth

1.1 Ein haelodau ar hyn o bryd yw Janet Davies (Cadeirydd), Leighton Andrews, Mick Bates, Alun Cairns, Jocelyn Davies, Mark Isherwood, Irene James,
Denise Idris-Jones, Carl Sargeant a Catherine Thomas.

### Rôl a Chyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio

1.2 Rôl y Pwyllgor Archwilio yw sicrhau fod craffu priodol a thrylwyr yn digwydd i wariant y Cynulliad. Prif bwrpas y Pwyllgor yw sicrhau fod y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill yn glynu wrth y safonau uchaf posibl wrth reoli'u materion ariannol. Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio wedi'u nodi yn Adran 102 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 12. Mewn geiriau eraill, cyfrifoldeb y Pwyllgor Archwilio yw craffu ar yr adroddiadau ar gyfrifon y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac ystyried adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithiolrwydd a'r effeithlonrwydd (hynny yw, gwerth am arian) y mae'r Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill wedi'i gyflawni wrth ddefnyddio'u hadnoddau i gyflawni eu swyddogaethau.

1.3 Mae'r Pwyllgor yn gweithredu heb fod ar sail unrhyw blaid wleidyddol, heb amau rhagoriaethau amcanion polisi, ond yn hytrach mae'n canolbwyntio a wnaeth y sefydliadau dan sylw weithredu eu polisïau a'u rhaglenni gydag ystyriaeth briodol i gysondeb, priodoldeb a gwerth am arian.

1.4 Mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb hefyd i ystyried yn flynyddol amcangyfrif yr Archwilydd Cyffredinol o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn ganlynol ac i roi'r amcangyfrif hwnnw gerbron y Cynulliad. Ar yr un pryd ag ystyried yr amcangyfrif, mae'r Pwyllgor yn ystyried rhaglen ymchwiliadau gwerth am arian arfaethedig Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae gofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgynghori gyda'r Pwyllgor er mwyn penderfynu ar ei raglen.

### *Archwilydd Cyffredinol Cymru*

1.5 Mae Adran 102 Deddf 1998 yn rhoi pwerau i'r Pwyllgor Archwilio gymryd tystiolaeth a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar sail adroddiadau a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Golyga hyn fod gan y Pwyllgor berthynas weithiol glos gyda'r Archwilydd Cyffredinol. Ei waith ef yw'r man cychwyn ar gyfer rhaglen waith y Pwyllgor ei hun ac mae'n helpu'r Cynulliad a chyrff cyhoeddus cysylltiedig yng Nghymru i sicrhau gwerth am arian o'u gweithredoedd ac i sicrhau fod eu materion ariannol yn cael eu rheoli mewn modd cyson a phriodol.

### *Swyddfa Archwilio Cymru*

1.6 Sefydlwyd Swyddfa Archwilio Cymru, gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bennaeth arni, ar 1 Ebrill 2005. Mae'n gorff archwilio ac arolygu unedig ar gyfer y sector gyhoeddus yng Nghymru ac mae'n cyflawni un gyfundrefn archwilio ac arolygu trwy ystod eang o wasanaethau cyhoeddus.

1.7 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar bob rhan o'r sector gyhoeddus yng Nghymru ar wahân i lywodraeth leol.

1.8 Ar ôl ystyried adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, fel arfer bydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn tystiolaeth gan Swyddog Cyfrifyddu (hynny, yr uwch swyddog sydd â chyfrifoldeb personol am y gwariant perthnasol) y corff dan sylw i ystyried meysydd y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad. Bydd y Pwyllgor Archwilio wedyn yn cynhyrchu ei adroddiad ei hun ar y darganfyddiadau.

1.9 Bydd adroddiadau a gynhyrchir gan y Pwyllgor Archwilio yn cael eu cyflwyno gerbron y Cynulliad, a rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymateb i'w argymhellion o fewn 30 diwrnod gwaith.

**Annex 2**

**Adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a gyhoeddwyd yn 2005-06**

| Teitl a chyfeirnod yr adroddiad | Dyddiad derbyn tystiolaeth | Tystion | Report publication date |
|---|---|---|---|
| Rheoli Ynni a Dŵr yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru AC(2) 04-05 | 21 Ebrill 2005 | Yr Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch yng Nghymru<br>Mr Richard Hirst, Cyfarwyddwr Cyllid a Risg, Cyngor Cyllido Addysg Uwch yng Nghymru<br>Mr Chris Cowburn, Pennaeth Ystadau, Cyngor Cyllido Addysg Uwch yng Nghymru<br>Dr David Grant, Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd<br>Mr Scott Allin, Rheolwr Ariannol, Prifysgol Caerdydd | 2 November 2005 |
| Rheoli Absenoldebau Salwch gan Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru<br>AC(2) 05-05 | 19 Mai 2005 | Elizabeth Raikes, Prif Weithredwr, Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant - ELWa<br>Arwel Thomas, Pennaeth Swyddfa'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ELWa<br>Glyn Jones, Pennaeth, Coleg Sir Benfro<br>Kathryn Robson, Rheolwr Personél, Coleg Sir Benfro<br>Jan Knight, Pennaeth, Coleg Morgannwg<br>Julie Rees, Rheolwr Personél Dros Dro, Coleg Morgannwg | 2 November 2005 |

| Teitl a chyfeirnod yr adroddiad | Dyddiad derbyn tystiolaeth | Tystion | Report publication date |
|---|---|---|---|
| Cwymp Antur Dwyryd Llŷn Cyf<br>AC(2) 06-05 | 14 Gorffennaf 2005 | Syr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Dr Emyr Roberts, Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru | 2 November 2005 |
| Cyllid GIG Cymru<br>AC(2) 07-05 | 23 Mehefin 2005 | Mrs Ann Lloyd, Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth y Cynulliad<br>Dr Christine Daws, Pennaeth Adnoddau, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 7 December 2005 |
| Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>AC(2) 08-05 | 14 Gorffennaf 2005 | Syr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Mr Peter Jones, Prif Swyddog Cyfrifon Adnoddau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Dr Emyr Roberts, Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru | 7 December 2005 |

| **Teitl a chyfeirnod yr adroddiad** | **Dyddiad derbyn tystiolaeth** | **Tystion** | **Report publication date** |
|---|---|---|---|
| Contract ar gyfer darparu gwasanaethau Meddygon Teulu Tu Allan i Oriau Arferol yng Nghaerdydd<br>AC(2) 01-06 | 10 Tachwedd 2005 | Siân Richards Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd<br>Alison Gerrard, Cyfarwyddwr Cyllid, Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd<br>Mrs Ann Lloyd, Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru | 9 March 2006 |
| Diogelu staff y GIG rhag trais ac ymddygiad ymosodol<br>AC(2) 02-06 | 10 Tachwedd 2005 | Mrs Ann Lloyd, Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru,<br>Gren Kershaw, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych | 22 March 2006 |
| Ariannu Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru<br>AC(2) 03-06 | 1 Rhagfyr 2005 | Sir Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>David Richards, Cyfarwyddwr Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Martin Swain, Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>Gareth Hall, Prif Weithredwr Awdurdod Datblygu Cymru<br>Ron Slater, Awdurdod Datblygu Cymru<br>Jonathan Jones, Prif Weithredwr Bwrdd Croeso Cymru<br>Lucy O’Donnell, Bwrdd Croeso Cymru | 26 April 2006 |

**Atodiad 3**

## Argymhellion a gynhwysir yn adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a gyhoeddwyd rhwng Mehefin 2005 a Mai 2006

### Rheoli Ynni a Dŵr yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru

1. Nid yw'n bosibl rheoli dŵr ac ynni'n effeithiol heb systemau cadarn i fonitro'r defnydd o ddŵr ac ynni. **Yr ydym yn argymell fod y Cyngor Cyllido yn dynodi'r elfennau hynny o'r system fonitro a thargedu a ddefnyddir gan Brifysgol Caerdydd a allai gael eu dyblygu er mantais mewn mannau eraill, a'i fod yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i ddosbarthu arferion da wrth ddatblygu'r systemau hyn yn ehangach trwy'r sector yng Nghymru.**

2. Dylai datblygu meincnodau newydd ar gyfer defnyddio ynni a dŵr, a chasglu ynghyd ffigurau defnyddio fel rhan o Ystadegau Rheoli Ystadau Addysg Uwch, wella'n fawr allu sefydliadau i gymharu eu defnydd o ynni a dŵr gyda sefydliadau tebyg. **Yr ydym yn argymell felly y dylai'r Cyngor Cyllido ddefnyddio'r wybodaeth hon i ymchwilio'n feirniadol i berfformiad defnyddio ynni a dŵr y deuddeg sefydliad yng Nghymru, a thargedu ei ymdrechion i gefnogi gwelliant yn y sefydliadau hynny sydd heb fod yn gwneud cystal â'r gweddill.**

3. Mae arolygon ynni a dŵr lleol yn ddulliau pwysig o adnabod cyfleoedd, a chamau ymarferol ellir eu cymryd i gyflawni gwell effeithlonrwydd o ran defnyddio ynni a dŵr a bydd cyfleoedd newydd yn dod i'r amlwg fel mae technoleg yn datblygu. **Yr ydym yn argymell fod yr holl sefydliadau yn gwneud arolygon ynni a dŵr yn rheolaidd er mwyn adnabod cyfleoedd posibl i wella defnydd mwy effeithiol o ynni a dŵr. O wneud hynny, dylai sefydliadau ganoli eu sylw, os yn bosibl, ar feysydd sy'n ymddangos eu bod yn dangos mwy o ddefnydd o ynni a dŵr na'r disgwyl. Yr ydym hefyd yn argymell y dylai'r Cyngor Cyllido herio sefydliadau ar y gwaith maent wedi'i wneud mewn ymateb i arolygon sydd eisoes wedi'u cwblhau.**

4. Mae polisïau rheoli ynni a dŵr ffurfiol yn dangos ymrwymiad sefydliadau i ymdrin â materion defnyddio ac effeithlonrwydd, ond mae hefyd yn hanfodol fod polisïau yn gyson gyda strategaethau ystadau ehangach sefydliadau a'u bod yn cael eu rhoi ar waith. **Yr ydym yn argymell fod y Cyngor Cyllido, gan ddefnyddio cyngor yr Ymddiriedolaeth Carbon, yn ail-edrych ar eu canllawiau ar ddatblygu polisïau ynni a chynlluniau gweithredol perthnasol, ac yn gweithio gyda sefydliadau i gorffori'n llwyr ystyriaethau effeithiolrwydd ynni a dŵr o fewn strategaethau ystadau'r sefydliadau.**

5. Gall defnydd o ynni a dŵr gael ei ostwng trwy gamau cymhennu syml a rhad, megis diffodd goleuadau mewn ystafelloedd gwag, sy'n gofyn am gydweithrediad staff a myfyrwyr. Felly gall codi ymwybyddiaeth staff a myfyrwyr wneud cyfraniad

gwerthfawr i ymdrechion sefydliadau i ostwng defnydd ac i wella effeithlonrwydd. **Yr ydym yn argymell fod y Cyngor Cyllido a sefydliadau gyda'i gilydd yn ceisio adnabod, a ble bo'n briodol gweithredu, yr ymarfer da sydd eisoes yn gweithredu mewn rhai sefydliadau i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff a myfyrwyr am bwysigrwydd defnydd effeithiol o ynni. Mae arferion da yn cynnwys datblygu ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a sefydlu grwpiau tasg trawsadrannol, i gynnwys cynrychiolwyr o blith y myfyrwyr, i fod â chyfrifoldeb am ymdrin â defnyddio ynni a dŵr. Yr ydym hefyd yn argymell, ble mae mesurau arbed ynni a dŵr megis cyfleusterau pŵer awtomatig ar gael ar offer cyfrifiadurol, fod sefydliadau yn gwneud gwiriadau i sicrhau fod y cyfleusterau hyn yn cael eu defnyddio.**

6. Nid yw sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn codi tâl ar adrannau academaidd na myfyrwyr unigol sy'n byw mewn neuaddau preswyl am yr ynni a'r dŵr maent yn ei ddefnyddio. **Er nad yw codi tâl am ynni a dŵr yn ymarferol o bosibl yn y tymor byr i'r tymor canolig, yr ydym yn argymell fod pob sefydliad yn ymchwilio i'r opsiynau sy'n darparu cymhellion ariannol i adrannau unigol, ac o bosibl hyd yn oed i fyfyrwyr mewn llety Prifysgol, i annog defnydd mwy effeithiol o ynni a dŵr.**

7. Oherwydd eu maint bychan, mae llawer o sefydliadau'n gyfyngedig yn y sylw y gallant ei roi i reoli ynni a dŵr oherwydd diffyg adnoddau staff â'r arbenigedd perthnasol. **Yr ydym yn argymell fod yr holl sefydliadau yn dynodi'n glir aelod unigol o staff i weithredu fel y prif rym tu ôl i reoli dŵr ac ynni, hyd yn oed os nad ydynt yn gallu gwneud achos busnes dilys ar gyfer cyflogi rheolwr ynni a dŵr llawn amser. Yr ydym hefyd yn argymell y dylai sefydliadau, yn arbennig rhai llai nad oes ganddynt staff penodol ar gyfer rheoli ynni a dŵr, geisio cyfleoedd i gydweithio gyda sefydliadau eraill, i rannu adnoddau a gwybodaeth. Efallai y bydd cymorth ariannol ar gael gan y Cyngor Cyllido i gefnogi cydweithio o'r fath.**

8. Yn ogystal â sefydlu cyllidebau penodol ar gyfer buddsoddi mewn camau arbed ynni a dŵr, mae rhai sefydliadau wedi gwella effeithiolrwydd, trwy, er enghraifft, brynu cynnyrch mwy effeithiol am gost gychwynnol uwch, neu trwy gynllunio camau defnyddio ynni a dŵr effeithiol ychwanegol o fewn prosiectau cyfalaf mwy. **Yr ydym felly'n argymell fod sefydliadau yn corffori effeithlonrwydd o ran ynni a dŵr fel meini prawf allweddol o fewn eu polisïau prynu, gan gymryd i ystyriaeth y gost am oes, a bod y Cyngor Cyllido yn gweithio gyda sefydliadau i'w helpu i adnabod cyfleoedd i arbed ynni a dŵr yn gynnar yng ngham cynllunio prosiectau adeiladu newydd neu waith adnewyddu mawr.**

9. Er mwyn ychwanegu at eu buddsoddiad eu hunain mewn camau defnyddio ynni a dŵr yn effeithiol, mae rhai sefydliadau wedi cymryd mantais o ffynonellau ariannu allanol. **Yr ydym yn argymell fod y Cyngor Cyllido yn rhoi i**

**sefydliadau ganllawiau ar y ffynonellau arian allanol sydd ar gael i'r sector addysg uwch a allai hyrwyddo defnydd effeithiol o ynni a dŵr, a gweithio gyda sefydliadau i adnabod cynlluniau posibl i'w cyflwyno ar gyfer derbyn arian dan y rhaglenni hyn. Gall y rhain gynnwys cynlluniau ar y cyd rhwng sefydliadau neu gyda chyrff cyhoeddus eraill.**

**Rheoli Absenoldebau Salwch gan Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru**

1. Nid yw'n bosibl rheoli absenoldebau salwch heb yr wybodaeth angenrheidiol. Gan nad yw 11 o'r 25 sefydliad yn arferol yn mesur lefelau absenoldeb, fe ymddengys yn debygol i ni fod perfformiad cymharol dda'r sector yn fater o lwc, yn hytrach na chynllunio. **Yr ydym yn argymell y dylai pob sefydliad fesur absenoldebau salwch, gan ddefnyddio'r un diffiniad er mwyn hwyluso meincnodi.**

2. Rhoi arweiniad strategol yw rôl byrddau llywodraethol. Ond ble mae absenoldeb salwch yn broblem wirioneddol mewn sefydliad – ble mae'n amlwg yn effeithio ar ei fusnes craidd – dylai'r materion hyn gael eu codi ar lefel byrddau llywodraethol. **Er mwyn sicrhau fod rheoli absenoldeb salwch yn cadw proffil amlwg, yr ydym yn argymell fod byrddau llywodraethol – neu is-bwyllgor priodol – yn derbyn o leiaf adroddiadau blynyddol ar y lefelau absenoldeb salwch a'r costau. Yr ydym hefyd yn argymell fod timau uwch reoli, y mae eu swyddogaeth yn fwy gweithredol, yn derbyn adroddiadau o leiaf yn chwarterol.**

3. Mae straen wedi dod yn factor arwyddocaol mewn absenoldeb salwch, yn cyfrannu tuag at gyfran uchel o achosion o salwch tymor hir. Mewn llawer o achosion, mae'n anodd penderfynu ar union achos y straen ac a ydyw yn gysylltiedig â'r gwaith ai peidio. **Gan fod y mater hwn yn effeithio ar y mwyafrif o sefydliadau a'i fod yn gallu bod yn faes cymhleth, yr ydym yn argymell fod y Cyngor, ynghyd â'r Fforwm, yn dosbarthu arferion gorau ar sut i gasglu'r data angenrheidiol ar absenoldebau oherwydd straen a sut i ddelio â hwy.**

4. Tra bod risg y gall gosod targedau ar gyfer gostwng absenoldeb salwch arwain at gymhellion gwrthnysig, mae rhinwedd i'w cyflwyno, os nad yn unig fel modd o ddangos pwysigrwydd y mater. Does dim rheswm pam na ddylai sefydliadau osod targedau iddynt eu hunain i wneud y gweithdrefnau sylfaenol yn briodol, megis cael tystysgrifau meddygol a thystysgrifau i'w llenwi gan yr unigolyn ar gyfer absenoldeb, ac am wneud cyfweliadau dychwelyd i weithio, gan fod hwn wedi bod yn faes ble dangoswyd gwendidau. **Pan fo gan sefydliadau set o ddata absenoldeb salwch dibynadwy a chadarn ar gael, a phan maent yn ystyried y byddai gwell rheolaeth yn dylanwadu i ostwng lefelau absenoldeb, yr ydym yn argymell eu bod yn gosod targedau ar gyfer**

**gostwng absenoldeb salwch. Yr ydym hefyd yn argymell fod sefydliadau yn gosod targedau iddynt eu hunain ar gyfer cydymffurfio gyda'u gweithdrefnau eu hunain os yw hwnnw'n faes ble mae angen iddynt wella'u perfformiad.**

5. Mae'n rhaid i reoli absenoldeb salwch mwy soffistigedig - ac felly mwy effeithiol - fod â gwybodaeth rheoli da ynglŷn â thueddiadau. Mae dadansoddi patrymau absenoldeb megis ar rai dyddiau'r wythnos, ac achosion a hyd absenoldebau yn hanfodol wrth benderfynu ble y dylid cyfeirio cynlluniau polisi a gweithredu o safbwynt rheoli. **Yr ydym yn argymell fod sefydliadau yn gyntaf yn datblygu'r systemau gwybodaeth angenrheidiol i fedru cadw'r wybodaeth angenrheidiol ac i wneud y dadansoddiadau manwl a fydd yn galluogi i benderfyniadau doeth gael eu gwneud i reoli absenoldebau salwch.**

6. Gall achosion absenoldeb salwch fod yn anodd ac yn sensitif i'w trin, ac o bosibl yn dir peryglus yn gyfreithiol. Ond ni ddylid defnyddio'r ffactorau hyn i ryddhau rheolwyr llinell rhag y cyfrifoldeb am reoli absenoldeb salwch eu staff, gan mai hwy sydd agosaf at y staff ac yn y sefyllfa orau i ddatrys y mater. **Yr ydym felly yn argymell fod rheolwyr llinell yn cymryd cyfrifoldeb am reoli absenoldebau salwch ac yn derbyn yr hyfforddiant arbenigol angenrheidiol i'w galluogi i wneud hyn yn hyderus, yn gyson ac yn synhwyraidd.**

7. Mae rôl iechyd galwedigaethol yn hanfodol i reoli absenoldeb salwch, nid yn unig i hwyluso dod yn ôl i'r gwaith ond hefyd o bosibl mewn ffyrdd eraill, megis i weithredu camau ataliol. **Yng ngoleuni'r anfodlonrwydd a fynegwyd gan nifer o sefydliadau am ansawdd y gwasanaeth a gânt, yr ydym yn argymell fod y Cyngor yn arwain i roi sylw i'r mater hwn trwy ddwyn ynghyd y sefydliadau a chynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer gwelliant, gan gynnwys y posibilrwydd i sefydliadau rannu cyflenwyr.**

## Cwymp Antur Dwyryd Llŷn Cyf

**1**. Yr oedd Llywodraeth y Cynulliad yn honni fod y ffaith fod yr adolygiad ariannol gwreiddiol o Antur Dwyryd-Llŷn Cyf wedi'i wneud i ddiben cyfyngedig yn ymwneud ag achrediad yr asiantaeth fenter leol yn unol â chyfraith trethiant yn gallu cyfyngu'i ddefnydd i bwrpas ehangach. Ond, doedd dim rhwystr ffurfiol ar ddefnydd o'r fath, ac mewn achosion fel hyn, ble mae'r sector gyhoeddus yn dibynnu ar drydydd parti i leoli arian cyhoeddus er mwyn cyflawni gwasanaethau angenrheidiol i'r sector gyhoeddus, mae doethineb busnes arferol yn gorchymyn yr angen am asesu risg a monitro. **Yr ydym yn argymell fod cyllidwyr sector gyhoeddus yn ystyried ar y cyd ac yn cadw golwg i ba raddau mae sefydliadau fel hyn, sy'n ddibynnol bron ar ddarpariaeth arian cyhoeddus yn cael eu gwneud yn agored i beryglon methu.**

2. **Yr ydym yn argymell y dylai penderfyniadau i dalu arian cyhoeddus i gyrff o'r fath yn y lle cyntaf, ar yr amodau i glymu wrth flaensymiau o'r fath ac ar y monitro manwl ddylai ddilyn, fod yn seiliedig ar, a bod yn gymesur â'r asesiad risg cyfunol ym mhob achos.**

3. **Fod trefniadau sefydlog yn cael eu sefydlu i bob corff trwy'r hyn y mae gwybodaeth berthnasol a dderbynnir gan un rhan o'r sector gyhoeddus yn cael ei gyfleu mewn modd amserol i'r holl gyllidwyr sector gyhoeddus.**

**Cyllid GIG Cymru 2005**

1. Nid yw oedi i gytuno ar Gynlluniau Newid Strategol ac Effeithlonrwydd yn foddhaol ac ni ddylai hyn ddigwydd eto. Rhaid i gynllun newid strategol ac effeithlonrwydd Comisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol) gael eu cytuno a'u cymeradwyo fel mater o flaenoriaeth er mwyn ei alluogi i ddychwelyd i sefyllfa o gydbwysedd ariannol. **Yr ydym yn argymell fod pob ymdrech yn digwydd i gytuno a chymeradwyo Cynllun Newid Strategol ac Effeithlonrwydd ar gyfer y corff hwn cyn gynted ag sy'n bosibl a'i fod yn cael ei fonitro'n ofalus iawn drwy oes y Cynllun. Yr ydym hefyd yn argymell fod pob cefnogaeth bosibl yn cael ei darparu i Gomisiwn Iechyd Cymru i'w alluogi i ddatrys y rhesymau sylfaenol dros ei ddiffygion ac i'w rhwystro rhag digwydd eto.**

2. Mae amrywiad sylweddol yn yr arian ychwanegol a ddarperir o dan y Cynlluniau Newid Strategol ac Effeithlonrwydd tuag at gyrff yn rhanbarthau Canolbarth a Gorllewin a De Ddwyrain Cymru. Mae nifer o broblemau tymor hir iawn sydd wedi cyfrannu tuag at yr amrywiadau hyn a'r effaith dilynol ar gydbwysedd ariannol cyrff y GIG, yn arbennig y rhai a nodwyd yn Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin. **Yr ydym yn argymell fod gweithredoedd mwy radical ac arloesol yn cael eu hystyried a'u dilyn yng nghyd-destun y cynlluniau gweithredu Wanless lleol fel y gall cyrff y GIG ddarparu gwasanaethau cleifion i safonau derbyniol o fewn y cyfyngiadau arian a ddyrennir.** **.**

3. Mae gallu cyrff y GIG i ragweld a dadansoddi'n gywir eu canlyniadau yn hanfodol i reolaeth ariannol da'r sefydliadau hyn ac i'w monitro'n effeithiol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. **Yr ydym yn argymell fod yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithio gydag ymddiriedolaethau GIG unigol i sicrhau fod rhagolygon yn cael eu paratoi ar sail gyson a thebyg trwy Gymru, a bod arferion da yn cael eu dosbarthu i'r holl sefydliadau.**

4. Y cerdyn sgorio cytbwys yw'r ffordd o asesu perfformiad cyrff y GIG ar sail gyson a thryloyw trwy Gymru, ar gyfer meincnodi cyrff gyda chyrff tebyg ac ar gyfer gostwng baich cynhyrchu gwybodaeth ar gyfer cyrff arolygu eraill. **Yr ydym yn argymell fod y cerdyn sgorio cytbwys yn cael ei wneud yn derfynol gan**

**yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'i fod yn cael ei ymestyn i holl gyrff y GIG, gan gynnwys Comisiwn Iechyd Cymru os yn briodol, yn fuan gyda chanllawiau priodol ar ei ddefnyddio.**

5. Bydd y newidiadau mewn ymateb i Adroddiad Wanless yn cymryd rhywfaint o amser i'w gweithredu ac maent angen nifer o ddatblygiadau gan gynnwys partneriaethau gyda darparwyr gwasanaeth eraill, y cyhoedd a gwasanaethau ailstrwythuro. **Yr ydym yn argymell fod yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn llunio amserlen fanwl ar gyfer gweithredu a monitro'r holl weithredoedd mewn ymateb i Adroddiad Wanless ac yn dosbarthu hwn yn eang unwaith bo'r cynigion ail-gyflunio wedi'u derbyn.**

**Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2005**

1. Nid yw'n dderbyniol fod rhai cyfrifon blynyddol yn parhau i gael eu cyflwyno'n hwyr i'w harchwilio, a bod safon y cyfrifon hynny'n dal i fod yn anghyson. Gallai'r pwysau fyddai'n deillio o orfod paratoi cyfrifon yn gynt, pe na bai'n cael ei reoli'n dda arwain at ddirywiad pellach yn ansawdd y cyfrifon. Mae'n hanfodol, felly, fod gweithredu'r fenter 'cau cynt ' yng Nghymru gael ei gefnogi gan systemau gwella yn y broses paratoi cyfrifon, a bod perchnogaeth rheoli digonol i'r broses honno. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad gryfhau'r system rheoli prosiect sydd ganddi'n weithredol i arolygu proses baratoi cyfrifon 2005-06, gan gynnwys y system ar gyfer Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Dylai hefyd adolygu digonolrwydd y camau sy'n cael eu cymryd gan gyrff unigol a noddir i gyflawni'r gofynion cau'n gynt ac yn ystyried pa gamau ymarferol ellid eu gweithredu i wella ansawdd cyffredinol y cyfrifon sy'n cael eu paratoi gan y cyrff hynny.**

2. Nid yw'r gwelliant a nodwyd yn y perfformiad talu eto wedi mynd yn ddigon pell. Bydd yn bwysig fod gan y Cynulliad broses gref wedi'i sefydlu i ymdrin â'i symiau taliadau mwy yn dilyn yr uno sydd i ddigwydd gyda nifer o'r cyrff mae'n eu noddi. Mae hyn yn arbennig o wir o gofio fod dau o'r cyrff noddedig – Bwrdd Croeso Cymru a'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa yn dod gyda hwy hanes o anawsterau penodol yn hyn o beth. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad weithredu gweithdrefnau cadarn i sicrhau fod ei holl adrannau mwy yn cyflawni'r safon perfformiad talu gofynnol o 1 Ebrill 2006. Dylai hefyd adolygu perfformiad cyrff a noddir yn hyn o beth a chyhoeddi canllawiau ymarfer da ar brosesu taliadau i helpu i wella'r lefel perfformiad cyffredinol sy'n cael ei nodi.**

3. Mae'r defnydd parhaus o wybodaeth ariannol seiliedig ar arian parod mewn sawl corff yn cyfyngu'n sylweddol ar werth gwybodaeth rheolaeth gyllidol sydd ar gael i dimau rheoli corfforaethol, ac i'w staff gweithredol mewn meysydd megis rheoli cynlluniau grantiau a phrosiectau cyfalaf. Mae'n amharu'n fawr hefyd ar effeithiolrwydd prosesau paratoi cyfrifon blynyddol. Felly yr ydym yn croesawu bwriad yr Ysgrifennydd Parhaol i weithredu systemau sy'n seiliedig ar adnoddau

trwy Lywodraeth y Cynulliad erbyn Mawrth 2007. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau fod systemau ariannol cynhwysfawr yn cael eu sefydlu er mwyn galluogi gwybodaeth seiliedig ar adnoddau i gael ei ddefnyddio mewn gweithdrefnau rheoli ac i wneud penderfyniadau. Dylai'r gwersi a ddysgir o'r gwaith datblygu sy'n cael ei wneud yn y maes hwn fel rhan o'r prosiect uno gael eu rhannu gyda chyrff a noddir gan y Cynulliad sy'n weddill, i'w helpu i wella eu systemau rheoli gwybodaeth a rheoli ariannol eu hunain. Hefyd dylai staff o fewn y cyrff a noddir a Llywodraeth y Cynulliad gael hyfforddiant ar sut i ddeall a defnyddio gwybodaeth sy'n seiliedig ar adnoddau pan fydd ar gael.**

4. Bydd angen i'r cyrff a noddir sy'n uno gyda Llywodraeth y Cynulliad barhau i baratoi cyfrifon terfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2005-06. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau fod y prif staff sydd eu hangen ar gyfer y broses paratoi cyfrifon yn parhau i roi blaenoriaeth uchel i'r gwaith hwn yn yr wythnosau'n dilyn yr uno ar 1 Ebrill 2006, er mwyn peidio peryglu'r amserlen cau'r prosiect yn gynt.**

5. Mae'r pwyllgor hwn yn ymwybodol o'r risg posibl y gall uno cyn gyrff a noddwyd gyda'r Cynulliad arwain at golli atebolrwydd am eu gwariant. Felly yr ydym yn croesawu'n gynnes y sicrwydd a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Archwilydd Cyffredinol yn hyn o beth, ac yn arbennig creu Is-Swyddogion Cyfrifyddu ychwanegol i gynorthwyo'r Ysgrifennydd Parhaol fel rhan o'r agenda foderneiddio ar gyfer rheolaeth ariannol o fewn y Cynulliad. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu strwythurau llywodraethu a rheoli ariannol effeithiol i gefnogi'r is-Swyddogion Cyfrifyddu newydd. Dylai hefyd gadw golwg ar wariant ar swyddogaethau'r cyn gyrff a noddwyd, trwy, er enghraifft, ddadansoddiadau ariannol priodol o fewn eu cyfrifon adnoddau blynyddol.**

6. Yr ydym yn cymeradwyo bwriad Llywodraeth y Cynulliad i wneud adolygiad sut y gall ystâd y Cynulliad gael ei ddefnyddio'n well, a chreu arfaethedig cynllun rheoli ased unigol ar gyfer y Cynulliad. Bydd yn bwysig fod y gwendidau sy'n cael eu hadnabod mewn gwaith cynllunio rheoli asedau gan adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol yn cael sylw priodol. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad fewnosod trefniadau rheoli asedau o fewn ei gweithdrefnau rheoli, a sicrhau fod cefnogaeth hyfforddiant cyflawn yn cael ei roi i staff perthnasol. Dylai hefyd orfodi cynllunio rheoli asedau o safon gyson trwy'i holl gyrff a noddir, yn benodol gyda golwg ar gwmpas a chynnwys cynlluniau rheoli asedau.**

7. Mae'r pwyllgor yn nodi'r canlyniadau ardderchog sy'n cael eu cyflawni gan Fenter Caffael Cymru i greu arbedion o fewn caffael y sector gyhoeddus yng Nghymru, a'r cynigion parhaus yn y maes hwn fel rhan o raglen Gwerth Cymru. Mae'n bwysig, fodd bynnag, fod gan gyrff cyhoeddus allu ac arbenigedd caffael sy'n ddigonol ar gyfer, ac yn gymesur â gwerth a chymhlethdod eu gofynion prynu. Yn hyn o beth, mae'r gwiriadau ffitrwydd caffael bellach yn dynodi nifer o

weithredoedd allweddol i wella pethau.  Gall diffyg arbenigedd priodol hefyd gyfrannu tuag at ddiffygion i gydymffurfio gyda rheoli caffael mewn rhai achosion, fel y tanlinellwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.   **Dylai tîm Menter Caffael Cymru o fewn Gwerth Cymru gwblhau ei raglen o wiriadau ffitrwydd caffael trwy'r holl gyrff a noddir gan y Cynulliad cyn gynted ag sy'n bosibl, gyda'r meysydd a ddynodir gan y gwiriadau ffitrwydd a gwblhawyd hyd yma yn cael sylw prydlon. Dylai'r gwersi ehangach a ddysgir gan waith y fenter, ac enghreifftiau o arferion da gael eu gwneud yn gyhoeddus gan Lywodraeth y Cynulliad.  Dylai Llywodraeth y Cynulliad wella ei rhaglen hyfforddi bresennol i roi i staff sy'n gysylltiedig â chaffael y sgiliau maent eu hangen i wneud eu gwaith, gan gynnwys gwybodaeth fanwl o'r rheolau cytundebol yn ymwneud â chaffael. Dylai'r adolygiad hwn o ddarpariaeth hyfforddiant hefyd gael ei wneud gan y cyrff a noddir.**

8. Yr ydym yn dal i fod yn bryderus na wyddys o hyd ynghylch y golled ariannol derfynol i Gymru a ddeilliodd o gau'r Rhaglenni Ewropeaidd 1994-99, ac rydym am ofyn fod y Pwyllgor hwn yn cael gwybod cyn gynted ag mae'r sefyllfa'n cael ei gwneud yn derfynol gan y Comisiwn Ewropeaidd. Yr ydym hefyd yn bryderus ynghylch hunanfoddhad ymddangosiadol gyda golwg ar ddarganfyddiadau archwilio ar brosiectau Ewropeaidd. Tra'n cydnabod nad yw'r rhain yn aml yn tynnu sylw at wendidau sylfaenol, mae'r nifer o amodau archwilio yn awgrymu fod problem barhaus yn bodoli gyda rheolaeth ariannol prosiectau gan rai sy'n derbyn grantiau. Mae'n orfodol fod y problemau hyn yn cael eu cywiro ar fyrder, er mwyn gwaredu'r risg y bydd cau'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd cyfredol yn y pen draw yn achosi colled ariannol posibl mwy fyth i Gymru.    **Dylai Llywodraeth y Cynulliad bwysleisio wrth uwch reolwyr y cyrff sy'n derbyn grantiau (ar lefel Prif Weithredwr neu Swyddog Cyfrifyddu ble bo'n berthnasol) bwysigrwydd sicrhau cydymffurfio gyda holl ofynion rheoliadau ariannu Ewropeaidd.**

**Contract ar gyfer Darparu Gwasanaethau Meddygon Teulu y tu allan i oriau arferol yng Nghaerdydd**

1. Gallai Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd fod wedi gwneud mwy yn gynt i ddatrys camddealltwriaeth gyda bidiwr ynglŷn â'r dehongliad o'r fanyleb gwasanaeth.
**Yr ydym yn argymell y dylai cyrff y sector gyhoeddus:**
a) **ble bo'n briodol, ac i fod yn ofalus i gadw tegwch, gysylltu gyda'r farchnad fel ymhonnwr i drafod a gwneud yn eglur y fanyleb yn arbennig os yw'n gymhleth neu'n anarferol;**
b) **yn cynnig i fidwyr posibl gyfleoedd i drafod unrhyw amwysedd posibl am ddehongli'r fanyleb gwasanaeth cyn i dendrau gael eu hanfon; ac**
c) **yn cynnwys geirfa yn eu manylebau gwasanaeth sy'n diffinio unrhyw dermau sydd o bosib yn amwys.**

2. Pwrpas derbyn tystlythyrau yw cael cadarnhad annibynnol ac awdurdodol am allu cwmni i gyflawni'r gofynion arno. Fodd bynnag, dim ond tystlythyrau llafar a gafodd Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd ar gyfer CSUK gan ganolwyr a oedd, ymhellach, heb fod mewn sefyllfa i wneud sylw am allu CSUK i gyflwyno gwasanaethau clinigol ac a oedd â buddiannau posibl yn gwrthdaro. Hefyd, nid oedd y tystlythyrau wedi'u cofnodi'n briodol. Ar sail yr achos hwn, felly **yr ydym yn argymell y dylai cyrff sector gyhoeddus gadarnhau fod canolwyr mewn sefyllfa i wneud sylw gydag awdurdod ar allu cwmni i ddarparu'r gwasanaethau y mae'n tendro amdanynt, nad oes gan ganolwyr unrhyw fuddiannau posibl sy'n gwrthdaro, a bod pob tystlythyr yn cael ei gofnodi a'i gadw'n ofalus.**

3. Mae'n anfaddeuol fod Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd wedi peidio dilyn ymarfer da o ran gwiriadau sylfaenol a wnaeth i sicrhau fod CSUK â'r gallu ariannol a bod gan y cwmni'r gallu i reoli unrhyw gostau neu wariant annisgwyl. Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad Gylchlythyr Iechyd Cymru oedd yn cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol ar ganllawiau presennol y Trysorlys a Swyddfa Fasnach y Llywodraeth. **Yr ydym yn argymell fod Byrddau Iechyd Lleol, wrth wneud eu dyletswydd i ddefnyddio safonau arferol pwyll masnachol, yn cael eu harwain gan ganllawiau'r Trysorlys a Swyddfa Fasnach y Llywodraeth ar wiriadau ariannol sy'n rhaid eu gwneud ar gwmnïau sy'n bidio am gontractau, gyda chyfeiriad arbennig at yr angen i sicrhau fod cwmnïau newydd â'r gallu ariannol i gyflawni'n ddigonol y gwasanaeth dan sylw.**

4. Gall gwasanaeth tu allan i oriau arferol aneffeithiol gael effaith andwyol, nid yn unig ar y cleifion a wasanaethir yn uniongyrchol, ond hefyd ar y gwasanaeth damweiniau ac achosion brys yn gyfan. Fodd bynnag, er gwaethaf cydnabod pwysigrwydd y gwasanaeth tu allan i oriau i gleifion a bod ei benderfyniad i roi'r contract i CSUK yn ei hanfod yn peri risg, ni sefydlodd Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd strategaeth rheoli risg fanwl ac nid oedd ganddo gynllun argyfwng ysgrifenedig. **Yr ydym yn argymell, wrth roi contractau am wasanaethau cleifion i gyflenwyr newydd, y dylai Byrddau Iechyd Lleol ddatblygu cynlluniau rheoli risg a chynlluniau argyfwng sy'n cyfateb i'r peryglon pe digwydd methiant yn y gwasanaeth neu fethiant ariannol.**

5. Mae gwyro'n gynnar oddi wrth delerau'r contract o blaid y darparwr yn beryglus iawn, a dylai ddigwydd dim ond mewn amgylchiadau eithriadol a dylai cyfiawnhad trylwyr fod yn ofynnol. Ni wnaeth Bwrdd Iechyd Lleol gofnodi'n gyflawn ei benderfyniad gwreiddiol i roi arian ychwanegol i CSUK, ond ceisiodd gyfiawnhau ei benderfyniad ar y sail fod cynnydd digynsail wedi bod mewn galw, pan, mewn gwirionedd nad oedd y galw wedi codi uwchlaw'r lefelau a nodwyd yn y contract. **Yr ydym yn argymell, ble mae cyrff sector gyhoeddus yn penderfynu rhoi arian ychwanegol i gontractwyr y tu allan i delerau contract, y dylent:**

a) **asesu'n llym  y dystiolaeth fod amgylchiadau eithriadol i gyfiawnhau'r arian; a**
b) **dylent gofnodi'n gyflawn y sail i'w penderfyniad.**

**Diogelu staff y GIG rhag trais ac ymddygiad ymosodol**

1. Er bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cadarnhau'r diffiniad o drais ac ymddygiad ymosodol ac wedi cynyddu lefelau hyfforddiant trwy'r Cynllun Pasbort, mae rhai staff yn dal i fod yn amharod i nodi bob digwyddiad o drais ac ymddygiad ymosodol. Mae bylchau yn yr wybodaeth a gasglwyd am natur ac achosion digwyddiadau a nodwyd, a diffyg gwybodaeth ar ddemograffeg y staff dan sylw. Ac nid yw systemau cofnodi absenoldebau salwch yn ddigon cadarn i wybod faint o absenoldeb salwch staff sy'n gysylltiedig â thrais.  **Yr ydym yn argymell fod:**
a) **Ymddiriedolaethau GIG yn annog staff i gofnodi digwyddiadau o drais ac ymddygiad ymosodol ac yn ceisio gostwng baich llenwi ffurflenni i staff blaen, er enghraifft trwy annog staff diogelwch neu staff gweinyddol i gwblhau ffurflenni;**
b) **dylai pob gwybodaeth ar achosion digwyddiadau o drais ac ymddygiad ymosodol - er enghraifft, ble mae cyfweliad gyda rheolwr wedi digwydd ar ôl digwyddiad, neu fel rhan o gyfweliad ymadael â staff sy'n gadael cyflogaeth yr Ymddiriedolaeth -  gael ei drosglwyddo i arweinydd iechyd a diogelwch yr Ymddiriedolaeth, a ddylai ddadansoddi achosion o drais a rhannu unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg gyda Bwrdd yr Ymddiriedolaeth; a**
c) **dylai Llywodraeth y Cynulliad ac ymddiriedolaethau GIG ddatblygu systemau nodi absenoldebau salwch sy'n cofnodi trais cysylltiedig â'r gwaith fel rheswm dros absenoldeb.**

2. Mae'n ofynnol i Ymddiriedolaethau GIG ddarparu ystadegau blynyddol trais i Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad fel rhan o'r cerdyn sgorio cytbwys ar gyfer 2005-06. **Yr ydym yn argymell fod Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio ei system rheoli perfformiad i ddarparu data meincnodi i ymddiriedolaethau GIG i'w galluogi i gymharu eu hystadegau ar drais gydag ystadegau ymddiriedolaethau ac adrannau tebyg yn flynyddol ac i asesu eu cyfraddau a'u perfformiad wrth ymdrin â thrais ac ymddygiad ymosodol.**

3. Gall gohirio rhyddhau cleifion sy'n dangos ymddygiad cythryblus, megis cleifion oedrannus gyda dementia, gynyddu'r risg o drais ac ymddygiad ymosodol tuag at staff.  Nid oes gan ymddiriedolaethau ddata ar y nifer o ddigwyddiadau a achosir gan gleifion oedrannus sy'n cael eu cadw ar wardiau oherwydd diffyg gofal arall.
**Yr ydym yn argymell fod ymddiriedolaethau yn ceisio gostwng y perygl o drais ac ymddygiad ymosodol trwy wneud asesiadau risg ar effaith unrhyw**

**ohirio trosglwyddo claf iechyd meddwl, a bod rheolwyr wardiau'n sicrhau fod staff yn cael eu cefnogi'n ddigonol ble mae unrhyw ohirio trosglwyddo gofal yn gwaethygu'r perygl o drais gan gleifion.**

4. Yr oedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at nifer o faterion cyfreithiol yr oedd ymddiriedolaethau GIG yn gorfod delio â hwy, yn eu plith, sut i gynyddu'r nifer o erlyniadau llwyddiannus, gweithio'n fwy effeithiol gyda'r heddlu, a materion gwarchod data a hawliau dynol sydd yn gysylltiedig â labelu nodiadau cleifion sy'n dreisiol dro ar ôl tro a rhannu'r wybodaeth hon trwy'r asiantaethau. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud gwaith ar bob un o'r meysydd hyn er mwyn gallu darparu mwy o gefnogaeth a chyfarwyddyd i ymddiriedolaethau. **Yr ydym yn argymell fod Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi canllawiau i ymddiriedolaethau'r GIG ar gynyddu erlyniadau, gweithio gyda'r heddlu, a materion gwarchod data a hawliau dynol cleifion. Dylai Llywodraeth y Cynulliad fonitro effaith y canllawiau hyn ar les staff ac ar ddatblygu systemau rheoli effeithiol gan ymddiriedolaethau.**

**Ariannu Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**

1. Ni wnaeth cyllidwyr cyhoeddus yng Nghymru asesu'n ddigonol na rhoi'r sylw dyladwy i'r peryglon allai fod yn gysylltiedig ag ariannu'r Ardd. Yn benodol, gallai mwy fod wedi'i wneud i ymchwilio i effaith unrhyw fethiant i ateb rhagolygon y cynllun busnes ac i herio'r rhesymau am y newidiadau arwyddocaol i ragolygon yr Ardd mewn ceisiadau diweddarach. **Yr ydym yn argymell, wrth werthuso ceisiadau am brosiectau cyfalaf mawr, y dylai cyrff y sector gyhoeddus:**
a) **gael eu harwain gan ddefnydd doeth ddadansoddi sensitifrwydd, gan adnabod a dadansoddi effaith amrywiadau i ragolygon gweithredol pwysig;**
b) **wneud yn ofynnol gynlluniau argyfwng pe digwydd i beryglon i hyfywdra ariannol y prosiect gael eu sylweddoli; a**
c) **herio'n frwd unrhyw newidiadau i ragolygon cynlluniau busnes - yn arbennig y rhai allai fod wedi'u seilio ar optimistiaeth ormodol.**

2. Pan fo mae llawer o gyllidwyr cyhoeddus Cymreig i brosiect cyfalaf mawr dylent weithio gyda'i gilydd i gymryd golwg ar y cyd ar y risgiau a darparu cefnogaeth barhaus yn y cam cynnar hanfodol o fodolaeth. **Yr ydym yn argymell, wrth ddelio gyda phrosiectau cyfalaf trydydd parti mawr, y dylai cyrff cyhoeddus:**
a) **gydweithio i adnabod y buddion a'r peryglon, gan amlinellu llinellau cyfrifoldeb clir am agweddau penodol cynlluniau busnes perthynol i arbenigedd sefydliadol; a**
b**) rhannu gwybodaeth ddefnyddiol trwy gydol cylch y prosiect, gan gynnwys, yn benodol, newidiadau arwyddocaol i gynlluniau busnes.**

**Atodiad 4**

**Ystyriaeth i Amcangyfrif Incwm a Gwariant Archwilydd Cyffredinol Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2007 a'r rhaglen ymchwiliadau gwerth am arian ar gyfer 2006-07**

Yn ei gyfarfod ar 6 Hydref 2005 cymeradwyodd y Pwyllgor amcangyfrif yr Archwilydd Cyffredinol o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2007. Yr oedd yr amcangyfrif yn cynrychioli gostyngiad o 1 y cant o gymharu â'r gyllideb am 2005-06. Credai'r Archwilydd Cyffredinol y gall fod lle i wneud arbedion effeithlonrwydd pellach yn y blynyddoedd i ddod.

Yn yr un cyfarfod, trafododd yr Aelodau raglen ddrafft yr Archwilydd Cyffredinol gyda golwg ar archwiliadau gwerth am arian 2006-07. Teimlwyd y gallai'r Archwilydd Cyffredinol wneud astudiaeth briodol o uno'r pedwar corff cyhoeddus mawr â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ymhlith yr eitemau eraill oedd yn deillio o'r cyfarfod yr oedd y cynllun Cymorth Prynu a gweithio ar y cyd a gweithio mewn partneriaeth yn y sector wirfoddol.

Cyflwynwyd rhaglen derfynol astudiaethau gwerth am arian ar gyfer 2006-07 i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror 2006. Mae'r rhaglen yn cynnwys astudiaethau ar:

- Hysbysu Gofal Iechyd;
- Heintiau gaiff eu dal mewn ysbyty;
- Rheoli perygl llifogydd;
- Buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion;
- Trafnidiaeth integredig;
- Y cynllun Cymorth Prynu;
- Canolfan Mileniwm Cymru;
- Datblygu cynaliadwy: gwneud penderfyniadau busnes;
- Cadw sgiliau masnachol yn ystod y broses ymgorffori **Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i mewn i Lywodraeth y Cynulliad.**

**Atodiad 5**

**Gwaith sy'n digwydd a gwaith a gynllunir**

Mae'r Pwyllgor ar ganol cynhyrchu adroddiadau ar weinyddu grantiau cynnal addysg a hyfforddiant (GCAH) a'r Gronfa Ysgolion Gwell, ac ar adolygiad sylfaenol o wasanaethau iechyd meddwl oedolion yng Nghymru. Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi'r adroddiadau hyn yn nhymor yr haf 2006.

Bydd y Pwyllgor yn derbyn tystiolaeth ar ddysgu seiliedig ar waith ac adroddiad cyffredinol Archwilydd Cyffredinol a'r archwiliad ar gyrff GIG yn ystod tymor yr haf.

Yn hydref 2006, bydd y Pwyllgor yn ystyried amcangyfrif incwm a gwariant Archwilydd Cyffredinol am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2008, ynghyd â'r rhaglen arfaethedig ar gyfer ymchwiliadau gwerth am arian ar gyfer 2007-08.